

Adroddiad i'r	Pwyllgor Craffu Perfformiad
Dyddiad y Cyfarfod	28 Tachwedd 2019
Aelod / Swyddog Arweiniol	Y Cynghorydd Julian Thompson-Hill, Aelod Arweiniol Cyllid, Perfformiad ac Asedau Strategol Alan Smith, Pennaeth Gwella Busnes a Moderneiddio
Awdur yr Adroddiad:	Iolo McGregor, Arweinydd y Tîm Cynllunio Strategol a Pherfformiad Heidi Barton-Price - Swyddog Cynllunio a Pherfformiad Strategol
Teitl	Adroddiad Perfformiad Y Cynllun Corfforaethol Chwarter 2 – 2019 i 2020

1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

- 1.1 Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno'r wybodaeth ddiweddaraf am gyflawni Cynllun Corfforaethol 2017 i 2022 ar ddiwedd chwarter 2 (mis Gorffennaf i fis Medi 2019).

2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

- 2.1 Darparu gwybodaeth am gynnydd y Cyngor ar ddiwedd chwarter 2, 2019 i 2020 mewn perthynas â chyflawni canlyniadau'r Cynllun Corfforaethol.
- 2.2 Mae adrodd yn ôl yn rheolaidd yn un o ofynion monitro angenrheidiol y Cynllun Corfforaethol er mwyn sicrhau bod y Cyngor yn gweithredu ei ddyletswydd i wella. Mae adroddiadau perfformiad chwarterol yn cael eu rhannu â'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth (UDA), y Cabinet a'r Pwyllgor Craffu Perfformiad yn rheolaidd.

3. Beth yw'r Argymhellion?

- 3.1 Argymhellir bod y Pwyllgor Craffu Perfformiad yn ystyried yr adroddiad, ac yn cytuno ar unrhyw gamau pellach sydd eu hangen i ymateb i unrhyw faterion sy'n ymwneud â pherfformiad a amlygir yn yr adroddiad.
- 3.2 Yn amodol ar unrhyw newidiadau a gytunwyd, mae'r Pwyllgor Craffu Perfformiad yn cadarnhau cynnwys yr adroddiad drafft.

4. Manylion yr Adroddiad

- 4.1 Mae Cynllun Corfforaethol y Cyngor 2017-2022 yn gosod y cyfeiriad strategol i'r cyngor a'i flaenoriaethau dros y cyfnod o bum mlynedd. Nodir y manylion ynglŷn â'r hyn mae'r Cyngor yn bwriadu ei wneud bob blwyddyn i geisio cyflawni'r blaenoriaethau hyn yn y cynlluniau gwasanaeth blynyddol. Mae'r prosiectau yn deillio o Gynlluniau Gwasanaethau a Rhaglenni. Caiff adroddiadau cynnydd eu darparu i'r UDA, y Pwyllgor Archwilio Perfformiad a'r Cabinet drwy ein Hadroddiadau Perfformiad Chwarterol.
- 4.2 Yn yr adroddiad chwarter 2 hwn, darperir crynodeb o ddata a diweddariadau prosiect, ynghyd â tablau data sy'n rhoi amlinelliad llawn o'n sefyllfa bresennol. Mae'r adroddiad hefyd yn amlinellu sut mae prosiectau a nodwyd i gefnogi pob blaenoriaeth yn datblygu.

5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

- 5.1 Mae'r adroddiad hwn yn darparu gwybodaeth am ein cynnydd wrth gyflawni'r Cynllun Corfforaethol. Dylai unrhyw benderfyniad a wneir gyfrannu at gyflawni'r Blaenoriaethau Corfforaethol yn llwyddiannus.

6. Beth fydd cost hyn a beth fydd ei effaith ar wasanaethau eraill?

- 6.1 Nid oes cost yn gysylltiedig â'r penderfyniad hwn.

7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o'r Effaith ar Les?

7.1 Nid oes angen Asesiad o Effaith ar Les ar gyfer yr adroddiad hwn. Mae'r adroddiad hwn yn darparu gwerthusiad ôl-weithredol o berfformiad y Cyngor ac nid oes unrhyw effaith bosibl ar bobl sydd â nodweddion a ddiogelir. Cynhaliwyd Asesiad o Effaith ar Les ar y Cynllun Corfforaethol, a chafodd ei gyflwyno i'r Cyngor Sir pan gymeradwywyd y cynllun ym mis Hydref 2017.

8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gyda'r Pwyllgorau Craffu ac eraill?

8.1 Mae'r adroddiad wedi'i ddatblygu gan y Tîm Cynllunio Strategol, mewn ymgynghoriad â gwasanaethau eraill y cyngor. Mae'r wybodaeth ynglŷn â pherfformiad sy'n cael ei chynnwys o fewn y ddogfen wedi ei darparu gan wasanaethau, ac mae wedi ei chymryd o'r system reoli perfformiad Verto. Cafodd yr adroddiad ei ystyried gan UDA ar 7 Tachwedd a'r Cabinet ar 19 Tachwedd.

9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

9.1 Nid oes goblygiadau ariannol arwyddocaol o ganlyniad i'r adroddiad hwn.

10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

10.1 Nid oes unrhyw risg benodol yn gysylltiedig â'r adroddiad hwn. Swyddogaeth y Gofrestr Risgiau Corfforaethol a'r Gofrestr Risgiau Gwasanaethau yw dynodi (a rheoli) achosion posib' o risg a allai olygu na all y Cyngor gyflawni ei Gynllun Corfforaethol.

11. Pŵer i wneud y Penderfyniad

11.1. Mae rheoli perfformiad a monitro yn elfen allweddol o Raglen Cymru ar gyfer Gwella, sydd wedi'i thanategu gan ofynion statudol Deddf Llywodraeth Leol 1999 a Mesur Llywodraeth Leol "Cymru" 2009.